**CYNGOR GWYNEDD**

**Anfonwch geisiadau ynghyd ag unrhyw ddogfennau cefnogol drwy e-bost: trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru**

**neu drwy'r post at:**

**Gwarchod Y Cyhoedd,**
**Ffordd Y Cob,**
**Pwllheli,**
**LL53 5AA.**

# Cais i Amrywio trwydded ymarferydd triniaeth arbennig a ddyroddwyd o dan Ran 4 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU A'R NODIADAU CANLLAW YN GYNTAF**

**Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon â llaw, ysgrifennwch yn eglur mewn llythrennau bras gan ddefnyddio inc. Defnyddiwch ragor o daflenni os oes angen (wedi'u marcio gyda'r pennawd "Taflen barhad – cais am drwydded triniaeth arbennig" a chynnwys rhif y cwestiwn perthnasol ac enw a chyfeiriad yr ymgeisydd). Efallai y byddwch eisiau cadw copi o'r ffurflen orffenedig ar gyfer eich cofnodion eich hun.**

## Rhan 1 – Manylion y cais

**Beth ydych chi eisiau ei amrywio?**

**A.** **Ychwanegu Triniaeth(au) Arbennig,** os felly, nodwch y Driniaeth isod.

**B.** **Dileu Triniaeth(au) Arbennig. Os felly,** Nodwch y driniaeth(au) benodol isod

**C.** **Ychwanegu Mangre/Cerbyd a Gymeradwywyd ble bydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi.** Nodwch enw a chyfeiriad y fangre/rhif cofrestru'r cerbyd isod

**D.** **Tynnu cyfeiriad at fangre neu gerbyd a nodwyd ar y drwydded yn flaenorol.** Nodwch Enw/Cyfeiriad(au) y Fangre neu rif(au) cofrestru'r cerbyd

**E.** **Newid enw deilydd y drwydded,** os felly, nodwch isod e.e. newid enw ar ôl priodi.

**Rhan 2 - Manylion yr Ymgeisydd** (llenwch fel sy'n briodol)

**2.1 Teitl:** Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Dr ☐ Arall ☐ (nodwch) …………………………..

**2.2 Cyfenw:** ……………………………………………….

**2.3 Enw(au) cyntaf:** ………………………………………………

**2.4 Enwau hysbys eraill:** ……………………………………………….

*[Er enghraifft, enw masnachu, enw arall neu ffug enw.]*

**2.5 Enw masnachu sydd dan sylw gan yr ymgeisydd:** ……………………………….

**2.6 Rhif ffôn cyswllt:** ………………………………………………

**2.7 Rhif ffôn cyswllt arall (dewisol):** ……………………………………….

**2.8 Cyfeiriad e-bost (os yn berthnasol):** …………………………………………………………………………….

**2.9 Dyddiad Geni:** ……………………………………….

**2.10 Cyfeiriad preswyl arferol yr ymgeisydd:**

……………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………. Cod post: …………………………………….

**2.11 Cyfeiriad busnes yr ymgeisydd (os yn wahanol):**

……………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………. Cod post: …………………………………….

**Rhan 3 - Ychwanegu triniaeth(au) arbennig newydd at drwydded.**

**3.1 Os yn berthnasol, rhowch fwy o fanylion am y dulliau/offer a ddefnyddir i wneud y driniaeth arbennig** *[Er enghraifft, nodwyddo sych, microlafnu, colur lled-barhaol ac ati]:*

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

**3.3 A oes triniaethau arbennig ar rannau personol o'r corff yn cael eu gwneud gennych? Os 'Oes', rhowch fwy o fanylion *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 1)*:**

Oes ☐ Nac Oes ☐

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

**3.4 A oes unrhyw weithgareddau eraill yn cael eu gwneud gennych yn ystod cwrs y busnes (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn driniaeth arbennig)? *(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2)***

Oes ☐ Nac Oes ☐

**Os 'Oes', rhestrwch y gweithgareddau eraill hynny:**

………………………………………………………………………………………………

**3.5 Nodwch eich statws gwaith o ran rhoi triniaethau arbennig** (ticiwch bob un sy'n berthnasol) ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 3)*:**

Rwy'n gweithio mewn mangre benodol ☐

Rwy'n gweithio ar sail symudol ☐

Rwy'n gweithio ar sail deithiol ☐

Rwy'n gweithio ar sail dros dro ☐

Rwy'n berchen ar fusnes ac yn gweithio yn y busnes hwnnw ☐

Rwy'n cael fy nghyflogi gan fusnes ☐

Rwy'n hunangyflogedig ☐

Rwy'n rheolwr busnes ☐

Rwy'n llogi ystafell/cadair gan fangre neu gerbyd a gymeradwywyd ond nid wyf yn cael fy nghyflogi gan y busnes hwnnw ☐

Arall (nodwch) …………………………………………………………………….☐

**3.5 Cyfeiriad gwefan ac/neu fanylion unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd er dibenion busnes (os yn berthnasol):**

………………………………………………………………………………………..

**3.7 Nodwch fanylion pob mangre ac/neu gerbyd a gymeradwywyd ble mae triniaeth arbennig i gael ei rhoi ac a fydd yn cael ei nodi ar eich trwydded triniaethau arbennig *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4)*:**

……………………………………,……………………………………..

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

**3.8 Ble'n bosib, nodwch rif(au) y dystysgrif gymeradwyo ar gyfer pob mangre neu gerbyd a gymeradwywyd *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5)*:**

……………………………………,……………………………………..

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

**3.9 O'r mangreoedd ac/neu'r cerbydau a gymeradwywyd yr ydych chi wedi'u nodi uchod, ac a fydd yn cael eu rhestru ar eich trwydded triniaeth arbennig, pa fangreoedd ac/neu gerbyd y byddwch chi'n eu defnyddio wrth wneud y mwyafrif o'ch gwaith?**

…………………………………….,…………………………………..

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

**4. Nodwch unrhyw wybodaeth arall y teimlwch sydd yn berthnasol i'ch cais:**

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

**Rhan 6 - Datganiad a Rhestr Wirio** (cwblhewch/ticiwch)

**<u>Yn berthnasol i bob ymgeisydd</u>**

**Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir. Rwy'n deall ei bod hi'n drosedd o dan adran 82(7) Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol yn y cais hwn, neu'n gysylltiedig â'r cais hwn, neu fy mod yn ddiofal p'un ai yw'r wybodaeth yn ffug neu'n gamarweiniol.**

**Rwy'n deall y gall rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol (yn fwriadol neu'n ddiofal) arwain at ddirymu fy nhystysgrif gymeradwyo.**

**Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mod:**

☐ **Yn ymwybodol o fy nghyfrifoldebau i gael polisi yswiriant dilys i roi'r triniaethau arbennig (a fydd yn ffurfio rhan o'r amodau trwyddedu mandadol a fydd ynghlwm wrth fy nhrwydded)** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7)*****,**

☐ **Wedi darllen ac yn deall yr amodau cymeradwyo mandadol a fydd yn rhan o fy nhrwydded, ac**

☐ **Rwy'n deall goblygiadau diffyg cydymffurfio â'r amodau trwyddedu mandadol hynny.** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 8)***

**Rhestr wirio:**

- **Mae'r taliad am y cais wedi'i wneud/gynnwys** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 9)*** ☐
- **Ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn a'i harwyddo** ***(gweler Nodyn Canllaw 10)*** ☐
- **Rwy'n deall y gellir gwrthod y cais os na chydymffurfir â'r gofynion uchod** ☐

## Rhan 7 - Llofnod

**Llofnod yr ymgeisydd (deiliad trwydded triniaeth arbennig)**

**Llofnod:** …………………………………………….

**Enw (llythrennau bras):** ……………………………………..…….

**Dyddiad:**.........................................................................

*Ble cyflwynir y cais ar ffurf electronig, dylid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a dylai fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig yr unigolyn.*

## Nodiadau Cyfarwyddyd

**Nodyn 1: Rhoi triniaethau arbennig ar ran bersonol o'r corff**

Gweler adran 96(2) Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sy'n nodi beth yw rhan bersonol o'r corff.

**Nodyn 2: Gwneud gweithgareddau eraill yn ystod cwrs y busnes**

Gall ymgeisydd gynnwys manylion gweithgareddau eraill y mae'r ymgeisydd yn eu gwneud yn ystod cwrs y busnes ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig. Er enghraifft, gweithgareddau fel triniaethau harddwch, trin gwallt, manwerthu ac ati.

**Nodyn 3: Statws gwaith mewn perthynas â rhoi triniaethau arbennig**

Cynghorir ymgeiswyr i ymgynghori â'r canllawiau anstatudol os nad ydynt yn siŵr ar ba "sail" y maent yn rhoi triniaethau arbennig. Er enghraifft, bydd ymgeisydd yn rhoi triniaeth arbennig ar "sail symudol" os yw'r driniaeth arbennig yn cael ei gwneud mewn cerbyd. Gweler hefyd adran 94 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 am ragor o wybodaeth.

**Nodyn 4: Manylion y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd**

Ystyr "mangre neu gerbyd a gymeradwywyd" yw mangre neu gerbyd a gymeradwywyd o dan adran 70(1) Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mewn perthynas â thriniaeth arbennig, gan yr awdurdod lleol.

Rhaid i ymgeiswyr—

(a) yn achos trwydded sy'n awdurdodi rhoi triniaeth arbennig mewn mangre, nodi cyfeiriad pob un o'r mangreoedd y mae rhoi'r driniaeth arbennig i gael ei hawdurdodi gan y drwydded triniaeth arbennig;

(b) yn achos trwydded sy'n awdurdodi rhoi triniaeth arbennig mewn cerbyd, nodwch rif cofrestru'r cerbyd;

(c) yn achos trwydded sy'n awdurdodi rhoi triniaeth arbennig mewn cerbyd nad oes ganddo rif cofrestru, pa bynnag fanylion adnabod y cerbyd y mae'r awdurdod lleol yn ystyried sy'n briodol.

**Nodyn 5: Rhif y dystysgrif gymeradwyo**

Ystyr "rhif y dystysgrif gymeradwyo" yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r dystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i'r dystysgrif honno ac a bennir ynddi.

**Nodyn 6: Rhif y Drwydded**

Ystyr "rhif y drwydded" yw'r rhif a roddir gan yr awdurdod lleol i'r drwydded triniaeth arbennig sy'n unigryw i'r drwydded honno ac a bennir ynddi.

**Nodyn 7: Sicrwydd polisi yswiriant *('Insurance cover')***

Rhaid i ymgeiswyr wneud datganiad y byddant yn cael polisi yswiriant dilys mewn perthynas â rhoi triniaethau arbennig a bydd y gofyniad hwnnw'n rhan o'r amodau trwyddedu gorfodol a fydd yn cael eu rhoi ynghlwm wrth y drwydded triniaeth arbennig. Sicrwydd polisi yswiriant yw polisi yswiriant sydd wedi'i roi gan gwmni yswiriant awdurdodedig i yswirio'r ymgeisydd mewn perthynas ag atebolrwydd, mewn perthynas â salwch, haint, anaf ac effeithiau andwyol eraill ar iechyd nad ydynt yn heintus (gan gynnwys adweithiau alergaidd), sy'n deillio o roi'r driniaeth arbennig.

**Nodyn 8: Diffyg cydymffurfio ag amodau trwyddedu mandadol**

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gellir dirymu trwydded triniaeth arbennig os yw awdurdod lleol yn fodlon bod deiliad y drwydded wedi methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol sy'n berthnasol, a bod y diffyg cydymffurfio hwnnw yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd pobl. Gweler adran 68 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 am ragor o fanylion.

**Nodyn 9: Talu ffi am gais**

Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol sy'n rhoi'r dystysgrif am fwy o wybodaeth am y swm sydd angen ei dalu am y cais a sut y dylent dalu'r ffi hwnnw. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 10: Cyflwyno cais**

Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol sy'n rhoi'r dystysgrif i gael rhagor o wybodaeth am sut i gyflwyno cais i amrywio trwydded triniaeth arbennig. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.